Coeden Ddarllen Rhydychen

Tylluanod


# Onw a'r Cawr

Roderick Hunt


Alex Brychta




DRAKE




Roedd Onw yn gwylio'r teledu.
Roedd yn gwylio rhaglen o'r enw
'Y Cawr Blin'.
Roedd yn hoffi'r rhaglen.



Roedd y Cawr Blin yn byw mewn castell
ger pentref.
Doedd neb yn y pentref yn hoffi'r cawr.
Roedd yn flin drwy'r amser.




Pan fyddai'r cawr yn flin byddai'n taro ei draed
ar lawr a byddai'r tai yn siglo.
'O na!' meddai pawb.
'Mae'n flin eto. Mae'n flin drwy'r amser.'



Aeth Onw i chwilio am Dids ond roedd e allan.
Cododd yr allwedd hud a
dechreuodd ddisgleirio.
'Ww!' meddai Onw.






Rhedodd i nôl Cad ond roedd hi
allan gyda Dids.
Dechreuodd yr hud weithio.
Aeth ag Onw i mewn i'r tŷ hud.





Aeth yr hud ag Onw at glwyd
castell y cawr.
Roedd ofn ar Onw.






Gwelodd fynegbost.
Roedd yn pwyntio at y pentref.
Doedd e ddim eisiau cwrdd â'r cawr, felly
aeth at y pentref.



Daeth Onw at y pentref ond
roedd yn fach iawn.
Roedd Onw yn gawr.
'O na!' meddai Onw.

'Ewch o'ma,' bloeddiodd y bobl.
'Dydyn ni mo'ch eisiau chi.
Mae un cawr gennym ni.
Dydyn ni ddim eisiau un arall.'



Taflodd y bobl bethau at Onw.
'Ewch o'ma,' bloeddion nhw.
'Dydyn ni ddim eisiau cawr arall.
Dydyn ni mo'ch eisiau chi.'

'Peidiwch,' gwaeddodd Onw.
'Nid cawr ydw i. Bachgen ydw i.'
'Wel, rydych chi'n edrych fel cawr,'
meddai'r bobl.



Dechreuodd Onw grio.


'Nid cawr ydw i,' meddai.

'Bachgen bach ydw i a dydw i ddim
yn hoffi'r antur hon.'

'Dyw cewri ddim yn crio,' meddai'r bobl.

'Efallai mai bachgen bach yw e ond
mae'n edrych fel cawr i ni.


Efallai y gall e ein helpu.'




Helpodd Onw y pentrefwyr
i drwsio eu tai.
Rhoddodd y toeon chwâl yn eu holau.
'Da iawn, Onw,' meddai pawb.




'Taflodd y cawr y garreg fawr hon atom ni,'
meddai'r bobl.
'Dydyn ni ddim eisiau hi fan hyn.
Fedrwch chi ei rhoi y tu allan i'r pentref?'



'Iawn,' meddai Onw. 'Gwnaf fy ngorau.'
Cododd y garreg a mynd â hi
y tu allan i'r pentref.
'Da iawn, Onw!' gwaeddodd pawb.







Roedd y bobl i gyd yn hoffi Onw.
'Diolch,' medden nhw.
'Rydych chi wedi ein helpu llawer.'
Chwaraeodd band y pentref iddo fe.




Daeth y cawr yn ôl.
Roedd yn flin iawn pan welodd
Onw yn y pentref.







'Fi yw'r cawr fan hyn,' bloeddiodd.
Rhedodd at y pentref.
Crash! Disgynnodd dros y garreg.
'Aw!' gwaeddodd.





Roedd ofn ar y bobl ond
aeth Onw i helpu'r cawr.
Cododd bethau'r cawr a rhoi
rhwymyn ar ei ben.






Roedd Onw yn fwy na'r cawr.
'Byddwch yn gawr da,' meddai Onw.
'Peidiwch â bod yn flin a bydd y bobl
yn eich hoffi chi.'



Felly peidiodd y cawr â bod yn flin.
'Rwy am geisio bod yn dda,' meddai.
'Hwrê!' gwaeddodd y bobl.
'Beth am gael parti?'



Dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.
'Mae'n bryd i mi fynd nawr,' meddai Onw.
'Hwyl fawr. Diolch am y parti.'



Aeth yr hud ag Onw adre.

'Does neb yn hoffi cawr blin,'

meddai Onw.

'Am antur!'

Argraffwyd yng Nghymru

# 2 Onw a’r Cawr

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 6



Tylluanod

Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

**Tylluanod Cam 6**

**1** Yn yr Ardd
**2** Onw a’r Cawr
**3** Y Wibdaith
**4** Gwlad y Deinosoriaid
**5** Robin Hwd
**6** Y Gist Drysorau

**Tylluanod Cam 7**

**7** Y Blaned Goch
**8** Ar Goll yn y Jyngl
**9** Twll yn y To
**10** Colli Allwedd

**Rhagor o Dylluanod Cam 6**

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

**Rhagor o Dylluanod Cam 7**

Y Drafforddd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1987
Ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999
Ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-249-4

DRAKE

9 780861 742493

ISBN 0 86 174249 4